**Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 14eg Mai, 2019 am 7.30yh yn Neuadd Dihewyd**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Haf Hughes (Cadeirydd), Johnny Davies,Glyn Davies, Daniel Evans, Alan Henson, Lynford Thomas, Harry Williams, Lyn Williams, Alan Henson,

1.**YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorwyr Gerwyn Owen, Hywel Ifans, Owen Llywelyn.

**2**. **PERSONOL** Dim materion personol

**3. DATGELU BUDDION PERSONOL** Dim i'w datgelu

**4**. **COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod yr 8fed o Fai, 2018 yn gywir. Cynigiwyd gan Y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan Y Cyng. Lynford Thomas

**5.. MATERION YN CODI** Dim materion I'w trafod

**6**. **GOHEBIAETH** Dim gohebiaeth.

**7**. **CYLLID**

I. **Archwilydd Mewnol**. Yn dilyn adolygiad o systemau archwiliadau mewnol a'r adroddiad ar Drefniadau a Rheoli Ariannol a Llywodraethu – Cynghorau Cymuned a Thref 2017-18 mae'n ofynnol ar y Cyngor i baratoi Cylch Gorchwyl i'r Archwilydd Mewnol yn amlinellu yr hyn ŷ'n ni'n disgwyl ohono. Dosbarthwyd copiau i'w hystyried. **Derbyniwyd** y Cylch Gorchwyl yn unfrydol a **chadarnhawyd** £150 fel tâl am y gwaith**. Penderfynwyd** anfon llythyr at Mr. Gwyn Jones yn ei wahodd i weithredu fel ein Archwilydd Mewnol am y flwyddyn 2019-2020 yn unol â'r Cylch Gorchwyl.

II. **Costau Cynhgorwyr**. Arwyddwyd taflennu gan y Cynghorwyr i dynnu allan o dderbyn y Lwfans Cynghorwyr.

III. **Tâl Gweithwyr Rhan-Amser**. Trafodwyd ychwanegu 2% i dâl y gweithwyr rhan-amser. Cynigiwyd gan Y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan Y Cyng. Daniel Evans. **Derbyniwyd yn unfrydol**. Penderfynodd y Clerc nad oedd yn dymuno cymryd y codiad hwn yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol a chadarnhawyd y bydd 2% yn cael ei ychwanegu i dâl Mr. Tony Bretland a Mr. Les Verdin am eu gwaith yn clanhau'r cysgodfannau.

IV. **Asedau ac Yswiriant**. Yn dilyn derbyn y manylion yswirio gan Zurich Municipal m 2019-2020, cafwyd trafodaeth gynhwysfawr am yr asedau. **Penderfynwyd** nad oedd angen newid unrhywbeth ar yr atodlen am eleni ond i'w trafod eto yn y cyfarfod cyffredinol y flwyddyn nesa'.

**8. DEWIS SWYDDOGION 2019-2020**

| | Swydd | Cynigydd: | Eilydd |
|---|---|---|---|
| **i.** | **Cadeirydd :** Cyng Alan Henson | Cyng. H. Williams | Cyng. G. Davies |
| **ii.** | **Is-Gadeirydd** : Cyng. Glyn Davies | Cyng. L. Thomas | Cyng. H. Williams |

**Etholwyd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn unfrydol.**

**iii.** Arwyddwyd y Datganiad Derbyn Swydd gan Y Cyng. Alan Henson

**iv.** **Penderfynwyd** yn unfrydol ail-ethol y **Clerc a'r Archwilydd Mewnol** i ymgymryd â'r swyddogaethau ar gyfer 2019-2020.

**9. ASESIAD RISG**

Nododd y Cyng. Lynford Thomas, ein Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch, nad oedd unrhyw newidiadau i'w gweithredu ar gyfer y flwyddyn 2019-2020**.** **Penderfynwyd** derbyn yr asesiad risg ond i'w adolygu yn y cyfarfod blynyddol y flwyddyn nesa'.

1**0**. **Y COD YMDDYGIAD**

Rhannwyd taflennu Y Cod Ymddygiad i atogoffa Cynghorwyr o'u cyfrifoldebau ac i atgyfnerthu'r hyfforddiant mewnol a gafwyd yng nghyfarfod Mawrth 2019. **Derbyniwyd** y Cod yn unfrydol.

11. **UNRHYW FATER ARALL**

I. **Cyfrifon 2018-2019**. Cadarnhaodd y Clerc bod yr Archwilydd Mewnol wedi cwblhau y cyfrifon a dosberthir y fantolen a'r adroddiad i'r Cynghorwyr i'w sylw cyn y cyfarfod ym mis Mehefin.

II. Dosbarthwyd y Rheolau Sefydlog a'r Rheolau Ariannol newydd a baratowyd gan y Clerc. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'u swyddogaeth ac yna fe'u **derbyniwyd** yn unfrydol. Arwyddwyd y dogfennau gan y Cadeirydd yn unol â chydymffurfiaeth y Datganiad Blynyddol.

III. **Penderfynwyd** gofyn i gwmni Antur Teifi i weinyddu'r system cyflogres a PAYE ar gyfer cyflog y Clerc am 2019-2020 ar gost o £5.00 y mis. Telir yr anfoneb yn flynyddol, sef £60.00 + TAW.

IV. **Penderfynwyd** yn unfrydol cadw ymlaen ar drefn o gwrdd ar yr ail nos Fawrth o bob mis yn Neuadd Goffa, Felinfach, Ysgol Cribyn a Neuadd Dihewyd am 7.30yh.

V. **Cronfa'r Cadeirydd.** Mae £107.28 yn y cyfrif (24/4/2019). Cynigiwyd trosglwyddo £192.72 i ddod â'r cyfanswm I £300.00. Cynigiwyd gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan Y Cyng. Harry Williams. **Cytunwyd yn unfrydol** a **phenderfynwyd** y byddai'r Clerc yn 'neud y trefniadau angenrheidiol.

VI. Wrth drosglwyddo'r awennau i'r Cyng. Alan Henson, diolchodd y Cyng. Haf Hughes i'w chyd-aelodau am eu cydweithrediad dros y flwyddyn ddiwethaf a

dymunodd yn dda i'r Cadeirydd newydd yn y gwaith. Cynigiodd Y Cyng. Harry Williams gair o ddiolch i'r Cyng. Haf Hughes am ei gwaith hithau yn ystod blwyddyn ei chadeiryddiaeth.

.